# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i'r Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Mawrth 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Roberts |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679 468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Oedolion, Iechyd a Llesiant |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli Adrannol ynghyd a'r Tîm Arweinyddiaeth.

1.3 Ar y cyfan rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant, er yn amlwg bod her sylweddol yn parhau o ran gwireddu'r rhaglen arbedion.

2. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

2.2. Gofynir i'r Cabinet gymeradwyo ail broffilio gwireddu pedwar o'r cynlluniau arbedion fel y nodir yn rhan 6.3 o'r adroddiad hwn.

3. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4. **RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1. **Prosiectau'r Cynllun Strategol**

4.1.1. Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2016-17.

4.2. **G1 Her Gofal - Ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn glir o'r her sy'n ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithio'n gymunedol.**

4.2.1 Fel ag yr adroddwyd diwedd y flwyddyn, mae'r gwaith ar y cynllun wedi arafu rhywfaint gan fod y swyddog arweiniol bellach ar absenoldeb mamolaeth. Mae llenwi'r rôl hon wedi ei ddal yn ôl hyd nes y bydd yn glir sut y bydd y rhaglen Her Gofal yn cael ei integreiddio gyda'r rhaglen waith Llesiant. Er nad yw'r gwaith i sicrhau plethiad y rhaglen waith Llesiant a rhaglen waith Her Gofal wedi ei gwblhau, mae llawer o'r elfennau sy'n perthyn i'r Prosiect yma yn parhau i weld cynnydd. Yn ogystal, dylid ystyried cyfraniad cynllun 'Heneiddio'n Dda' i'r agenda yma. Cafodd y cynllun sêl bendith y Cabinet ar 17 Ionawr 2017 ac mae trefniadau ar y gweill i lansio'r cynllun a sicrhau perchnogaeth ohoni a'r rhaglen waith, ymysg holl adrannau'r Cyngor.

4.2.2 Bydd y camau nesaf ar brosiect G2 a chwblhau prosiect G3 ynghyd ag eglurder cynyddol ar siâp y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) yn gwneud rhaglen waith Her Gofal dros y 12 mis nesaf yn fwy cadarn. Mae'r gwaith IAA yn profi yn heriol ar draws awdurdodau .Yng Ngwynedd mi fydd gwasanaeth IAA yn cael eu lleoli o fewn y 5 ardal. Mae'r adran wedi cychwyn diweddaru eu gwybodaeth sylfaenol.

4.2.3 Tra mae'r rhaglen i godi ymwybyddiaeth staff ac aelodau am ofynion y Ddeddf a'r newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn parhau, yn anffodus bu rhaid gohirio sesiwn penodol i uwch swyddogion y cyngor dwywaith oherwydd ymrwymiadau eraill. Bydd ymdrech bellach yn cael ei wneud i gael y drafodaeth am feithrin llesiant gyda Phenaethiaid yn y tri mis nesaf.

**4.3 G2 Gweithio'n Integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion - Ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio.**

4.3.1 Rwy'n falch o gael adrodd bod y prosiect yma yn symud yn ei flaen yn bositif iawn. Erbyn hyn mae cytundeb gyda'r Bwrdd Iechyd o ran sefydlu strwythur i ehangu gwaith Alltwen yn ei le. Cyflwynwyd y strwythur i staff y Cyngor ar 25ain o Ionawr ac fe gychwynnodd ymgynghoriad y Bwrdd Iechyd gyda'u staff ar 26ain Ionawr. Mae'n galonogol bod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar yr un un gwerthoedd. Mae'r rhaglen recriwtio yn 'gyrru' a chodi momentwm y newid, a gallaf gadarnhau bydd yr Arweinwyr Ardal (Gofal) wedi eu penodi erbyn diwedd Mawrth gyda'r arweinwyr trawsnewid yn fuan wedi hynny. Rwy'n deall bydd timau o staff y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn trosglwyddo i mewn i'r strwythur newydd; ardal wrth ardal fel y bydd sesiynau hyfforddiant yn cael eu trefnu a lleoliadau gwaith yn cael eu haddasu. Mae'r trefniadau yn parhau ar gyfer rhaglennu ac ehangu gwaith Alltwen i weddill y Sir gyda Gogledd Meirionnydd ac Ardal Dde Meirionnydd yn symud yn gyntaf gydag Ardal Llŷn ac Arfon i ddilyn wedi hynny.

4.3.2 Mae'n bleser gennyf gadarnhau eto bod data hyd at ddiwedd chwarter 3 yn parhau i ddangos gostyngiad ym mhecynnau gofal traddodiadol yng Ngwynedd, gyda chanlyniadau calonogol iawn i'w weld yn Ne Meirionnydd. Bydd y strwythur newydd yn weithredol hyd at Fawrth 2018 a bydd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn asesu'r cynnydd ac argymell addasiadau os yn briodol bryd hynny.

**4.4 G3 Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Sicrhau fod strwythur staffio'r adran yn addas ar gyfer y dyfodol.**

4.4.1 Gyda'r gwaith o sefydlu'r strwythur adrannol i gyflawni prosiect G2 yn agosáu at ei derfyn a'r Tîm Diogelu a Sicrwydd Ansawdd ar fin cael ei sefydlu, ystyrir bod y cynllun hwn yn mynd i gael ei gwblhau erbyn Ebrill 2017. Bydd yr Adran yn parhau i weithredu newidiadau os oes angen neu os oes cyfleoedd yn codi. Dylid nodi nad oedd rhannau o'r Adran, megis y Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn rhan o'r prosiect gwreiddiol ond y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i addasu yn y maes hwn os bydd angen yn cael ei adnabod. Mae trafodaethau am y maes yma gyda'r Bwrdd Iechyd ar fin dechrau.

**4.5 G4 Tai Gofal Ychwanegol – Adeiladau Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.**

4.5.1 Mae'r Gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Mae ychydig o oediad i'r rhaglen (11eg wythnos) ond dim byd sydd yn ychwanegol i'r hyn a adroddwyd y tro diwethaf. Mae'r adran eisoes wedi derbyn 30 cyfeiriad, bydd panel gosod yn cwrdd yn ystod y mis nesaf i drafod y ceisiadau. Rhybuddiwyd efallai oherwydd y llithriad yn y rhaglen waith na fydd posib symud neb i'r unedau tan ar ôl y Nadolig. Mae hyn yn golygu nad oes modd gwireddu'r arbedion o'r cynllun yn yr amserlen a ragwelwyd, a gweler yn 6.3 argymhelliad i'w hail- broffilio.

**4.6 G5 Frondeg – Sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.**

4.6.1 Pwrpas gwreiddiol y prosiect oedd sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen. Mae penderfyniad datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu ar safle Frondeg eisoes wedi ei wneud. Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghori, mae cynllun busnes wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda'r prif fudd-ddeiliaid. Bydd yr Adran Eiddo yn cysylltu gyda Grŵp Cynefin i gynnal trafodaeth ddechreuol ynglŷn â'r cynllun.

**4.7 G6 Darpariaeth fewnol – Penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sy'n darparu gwasanaethau gofal) a gweithredu ar hynny.**

4.7.1 Mae Adroddiad 'Achos Strategol Model Darparu Gofal' wedi ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth ar y 20.09.16. Mae penderfyniad ffurfiol wedi ei wneud i roi'r gwaith yma o'r neilltu am o leiaf 2 flynedd er mwyn ystyried opsiynau ehangach i'r Cyngor a'i bartneriaid mewn marchnad sydd yn newid ac yn fregus. Bydd asesiad o gynlluniau megis datblygiadau Llys Cadfan yn bwydo mewn i ystyriaethau os oes cyfiawnhad neu angen datblygu model amgen.

**4.8 G7 Capasiti a Chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac Iechyd – Ymateb i'r problemau presennol sydd yn bodoli o ran darpariaethau gofal ac iechyd o fewn y maes pobl hyn yn benodol.**

4.8.1 Mae gwaith ar Ran 1 prosiect Llys Cadfan wedi ei gwblhau ac fe ddylai fod ar gael i'w ddefnyddio yn fuan. Mae ymweliad ystlum ar y safle wedi amharu rhywfaint ar raglen rhan 2 ac mae trafodaethau ar y gweill gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Llywodraeth i geisio llithro elfen o'r gwariant i 2017/18. Mae gwneud buddsoddiadau tebyg gydag ein partneriaid yn y Bwrdd Iechyd ar safleoedd eraill a reolir gan y Cyngor dan ystyriaeth ac mae gwaith datblygol eisoes ar y gweill i adnabod blaenoriaethau a rhaglennu gwaith.

4.8.2 **Gofalwyr** - Mae gwaith i weld os yw ein trefniadau a'n sefyllfa gyfredol yn addas o ystyried disgwyliadau'r Ddeddf yn parhau. Mae un o swyddogion yr Adran yn mynd i fod yn arwain a chydlynu gwaith yn rhanbarthol, a bydd hynny yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r sefyllfa. Byddwn yn gofyn am farn swyddogion proffesiynol, gofalwyr yng Ngwynedd a phencampwyr y maes er mwyn ystyried os yw ein trefniadau yn addas. Bydd y gwaith yma yn ein galluogi i benderfynu os oes sail i gomisiynu prosiect neu brosiectau penodol i gefnogi gofalwyr di-dâl.

4.8.3 Mae AGGCC yn ymgymryd â darn o with i edrych ar ymdrechion y Cyngor o ran cefnogi gofalwyr. Mae nifer o gyfarfodydd gyda staff wedi eu cynnal eisoes a bydd trafodaeth bellach gyda AGGCC ar y 1af o Fawrth.

4.8.4 Rydym yn eu hannog i fod yn ffrind critigol i'r Cyngor a hyderir y bydd eu canfyddiadau a'u hargymhellion yn fodd o gryfhau'r ddarpariaeth yn y maes yma. Byddaf yn adrodd yn ôl i chi ar y canfyddiadau.

5. **Mesurau Perfformiad**

5.1 Mae **Atodiad 1** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

5.2 Adroddais y tro diwethaf fod trefniadau wedi eu gwneud o ran datblygu mesur sy'n mesur pwrpas y **Gwasanaeth Pobl Hyn ac Anableddau Corfforol** yn uniongyrchol. Mae'r adran wedi gwneud gwaith sylweddol wrth ddatblygu'r mesur. Roedd y wybodaeth y cyflwynwyd yn y cyfarfod adrannol yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig i arweinwyr a holl staff yr ardaloedd ac yn arf hynod effeithiol i helpu Gwella gwasanaethau. Mae'r uned yn hyderus bydd y mesur yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial gan yr holl weithlu.

5.3 Yn gyffredinol, **OED23 Canran o bobl hyn ag anableddau corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sydd yn bwysig**, mae 1120 asesiad wedi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn, 539 wedi sefydlu gwaelodlin a 111 o'r rhain wedi eu hadolygu gan y timoedd perthnasol. O'r **111** adolygiad, mae **82%** o gleientiaid Gwynedd wedi gweld cynnydd mewn cyflawni'r hyn sydd yn bwysig iddynt. Yn y cyfarfod adrannol adroddwyd bod **7** unigolyn gweld dirywiad, ac **13** unigolyn yn adrodd dim newid. Mae'r uned wedi mynd ati i adnabod y rhesymau dros unrhyw lithrant er mwyn deall y sefyllfa yn well.

5.4 Awgrymaf fod angen rhoi ychydig o sylw i'r rhai sydd yn adrodd dim newid neu sefydlogrwydd. Gan ystyried bod bywydau neb yn aros yr un fath, mae angen deall yn well eu sefyllfa i sicrhau ein bod yn cwrdd â dyheadau personol pob unigolyn, ble gallwn.

5.5 Ers i mi adrodd i chi y tro diwethaf, fel rhan o ddisgwyliadau'r ddeddf newydd, mae holiadur yn cael ei anfon allan i holl ddefnyddwyr y maes gofal. Rydym yn cadw golwg ar un allbwn penodol **(Hol/001)** yn yr holiadur safonol sef y **'Bobl sy'n nodi y gallent wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt'.** Hwn yw'r chwarter cyntaf i ni adrodd yn erbyn y mesur yma.

5.6 Mae'r adran wedi cychwyn dadansoddi'r holiadur. Gyrrwyd 1,500 o holiaduron allan a derbyniwyd 534 holiadur yn ôl. Mae **54%** yn nodi y gallent wneud yr hyn sydd yn bwysig iddynt, **38%** yn nodi weithiau a **7%** yn nodi nad ydynt yn gallu gwneud y pethau sydd yn bwysig iddynt. Mae'r adran wedi adnabod yr holl rwystrau sydd wedi cael eu hadrodd ond mae peth gwaith i'w wneud eto i'w ddadansoddi'n llawn. Awgrymir clystyru'r rhwystrau er mwyn adnabod unrhyw duedd posib ac adnabod cyfleoedd lle gallwn ddylanwadu arno.

5.7 **SCA/001** - **Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed.** Yn anffodus mae'r pryder yn parhau gyda'r perfformiad yma. Maer' nifer oediad mewn trosglwyddo gofal yn uchel, **5.6** unigolyn fesul 1,000 am y flwyddyn os yr ydym yn parhau ar y lefel yma. **2.4** oedd perfformiad blwyddyn ddiwethaf. Nid yw hyn yn cymharu'n ffafriol a gweddill Cymru sydd yn **4.9** ac yn llai ffafriol wrth gymharu yn erbyn gweddill ardal Gogledd Cymru sy'n **2.6** (15/16).

5.8 Mewn ymateb i'r perfformiad o ran **SCA/001** a phryderon cyffredinol ynglŷn â chynaliadwyedd y farchnad gofal yng ngogledd Cymru, cynhaliwyd sesiwn wythnos lawn ar draws y rhanbarth. Mae argymhellion sydd wedi deillio o'r gwaith yma ac yn benodol o ran Gwynedd mae wedi arwain at ddarn gwaith penodol yn Ysbyty Gwynedd fydd yn cael ei hwyluso gan ymgynghorwyr sy'n arbenigo mewn 'systems thinking'. Bydd hyn yn cynnwys chwe diwrnod o fod yn ceisio deall sut yn union mae'r system gyfredol yn gweithio a gobeithio'n arwain at ddatrysiadau i'r dyfodol. Bydd y sesiwn cyntaf o'r chwech yn cael ei gynnal ar y 27.02.17.

5.9 Hoffwn dynnu eich sylw at y mesur **SCA/019** (Lleol), o'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion lle mae perygl, mae **100%** wedi eu rheoli. Mi fydd mesurau mwy ystyrlon yn cael eu datblygu unwaith bydd yr uned Diogelu Oedolion ac Ansawdd newydd wedi sefydlu. Mi fydd yr uned Diogelu Oedolion ac Ansawdd yn gosod eu pwrpas ac yn mesur eu perfformiad yn erbyn hwnnw. Hyderaf y byddaf yn gallu eich diweddaru yn fy adroddiad nesaf.

5.10 Mae'r Tîm Anableddau Dysgu gyda gweledigaeth glir sydd yn canolbwyntio ar sefydlu'r hyn sydd yn bwysig i bob unigolyn drwy ymgysylltu ac eiriolaeth barhaus gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Ers imi adrodd y tro diwethaf maent wedi gosod eu pwrpas ac wedi creu mesuryddion sydd yn mesur eu pwrpas yn effeithiol. Un mesur cenedlaethol sef **OED 24 Canran o gleientiaid Anableddau Dysgu lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sydd yn bwysig iddynt hwy**. Mae'r uned wedi cynnal 137 sgyrsiau 'Hyn Sydd yn Bwysig', megis cychwyn ar y gwaith o sefydlu gwaelodlin ar y mesurydd newydd yma mae'r uned a byddaf yn adrodd ar y perfformiad yma yn ogystal â'r mesuryddion lleol sydd wedi cael eu datblygu dros y misoedd nesaf.

6. **Sefyllfa Ariannol/ Arbedion**

6.1 Mae adolygiad trydydd chwarter y gyllideb refeniw, a adroddwyd i'r Cabinet ar 14 Chwefror, yn fwy calonogol ac yn tystiolaethu bod y gwariant o fewn amryw o linellau'r gyllideb erbyn hyn wedi gostwng. Ymhellach, bod y gorwariant adrannol sy'n cael ei ragweld am 2016/17 wedi gostwng o £168,000 adroddwyd yn yr adolygiad ail chwarter i oddeutu £88,000.

6.2 Mae hyn yn awgrymu'r gryf bod trefniadau mwy cyfoes o weithredu i ddelio efo anghenion trigolion Gwynedd yn gynhyrchiol, ac yn araf arwain at leihad yn y galw am rai gwasanaethau. O ganlyniad, mae wedi arwain at arbedion pendant o fewn y maes gofal Pobl Hyn. Fodd bynnag, mae'n anodd adrodd i sicrwydd ar union faint yr arbedion o amryw o'r cynlluniau unigol fel ag y maent yn bodoli ar hyn o bryd.

6.3 Bu i'r Pennaeth gyflwyno adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd ar y datblygiadau sy'n deillio yn rhannol o "Alltwen", a'i ddymuniad i gyfuno amryw o'r cynlluniau unigol o fewn gwahanol benawdau. Byddai hyn yn cynnwys dull amgen o gofnodi budd ariannol y newidiadau. Cymeradwywyd egwyddor yr hyn oedd dan sylw a'r angen i gyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn y man er ystyriaeth, ond mae'n amlwg ar hyn o bryd y bydd llithriad mewn gwireddu rhai o gynllunau 2017/18. Yn sgil setliad ariannol mwy ffafriol na ddisgwyliwyd gan Lywodraeth Cymru, mae modd i'r Cyngor ganiatau mwy o amser i'r Adran wireddu rhai arbedion, ac argymhelli'r i'r Cabinet gymeradwyo ail-broffilio amseriad yr arbedion o'r cynlluniau canlynol:

| Cyf | Cynllun | Proffil Presennol | Proffil Amgen | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017/18 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
| OED22 | Ystyried Tai Gwarchod/TGY fel llety amgen i wlâu preswyl | 200,000 | | 120,000 | 80,000 |
| OED25 | Adolygu pecynnau cinio/te | 100,000 | 25,000 | 75,000 | |
| OED34 | Gwella effeithlonrwydd gweithwyr maes | 113,000 | 38,000 | 75,000 | |
| C2 | Dileu 2 swydd allan o 7.5 yn yr Uned cefnogi Systemau o fewn y Gwasanaeth Oedolion (Toriad) | 60,000 | | 60,000 | |
| | Cyfanswm | 473,000 | 63,000 | 330,000 | 80,000 |

6.4 Yn dilyn ymlaen o unrhyw newidiadau a gymeradwyir maes o law, bydd angen gweld cynnydd buan os yw cyfanswm cynlluniau 2015/16 a 2016/17 fel y nodir yn **Atodiad 1** am gael eu gwireddu yn llawn yn ystod 2017/18, ynghyd a'r cynlluniau eraill.

6.5 Mae'n amlwg bod her sylweddol yn parhau.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Dim i'w nodi.

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

**i. Y Prif Weithredwr:**
Mae'r maes hwn yn un traddodiadol anodd i sicrhau cynnydd buan ynddo ac mae'n dda gweld cynnydd da mewn nifer o feysydd allweddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yr Aelod Cabinet yn cyfarch y materion y mae yn eu codi ynglŷn ag arafwch gyda phrosiect Her Gofal a'r angen i weithredu ar newidiadau pellach i strwythur yr adran. Mae'n dda hefyd gweld arwyddion amlwg o sylw gweithredol i fesurau'r gwasanaeth a'r hyn y maent yn eu dweud am brofiad y defnyddwyr ac mae'n amlwg bod y problemau o ran trosglwyddiadau gofal a'r farchnad gofal yn parhau. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod y gorwariant tebygol fel pe'n lleihau ond yn amlwg, mae hyn yn rhywbeth sydd angen sylw cyson.

**ii. Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf yn cadarnhau cywirdeb agweddau ariannol yr adroddiad sy'n rhan 1.3, 2.2, a 6.1-6.5 o adroddiad yr Aelod Cabinet. Yn yr amgylchiadau, wedi trosiant swyddi yn yr Adran ers cyflwyno'r rhaglen arbedion wreiddiol, credaf fod y cais ger bron i ail-broffilio rhai cynlluniau arbedion yn rhesymol, ac rwyf wedi rhagdybio'r tebygolrwydd o'r llithriad yma wrth baratoi'r strategaeth ariannol.

### 8.2. Barn yr Aelod Lleol:

8.2.1 Dim yn fater lleol.

### 8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Mesurau Perfformiad